# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 17 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); M. Evans (Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd A. Asbrey a J. Owen (Archwiliad Cymru).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. DIWEDDARIAD CHWARTER 4 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI sefyllfa Chwarter 4 o risgiau corfforaethol (Ebrill 2022 – Mawrth 2023) fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cryno o Risgiau (Atodiad A) i'r adroddiad.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w cymeradwyo yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 4, a dyma sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried dileu Brexit o'r Gofrestr Risg o ystyried bod y rhan fwyaf o'r effeithiau'n cael eu hymgorffori o dan themâu a Risgiau eraill.
- Dylai'r Cabinet a'r Bwrdd Prosiect Sero ystyried a ddylid priodoli statws effaith risg trychinebus i Project Zero, o ystyried difrifoldeb cwrdd â heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu. Ni ddylai'r Cyngor ychwaith osgoi priodoli statws trychinebus.
- Bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r effaith ar gapasiti lleoliadau gofal preswyl i Blant sy'n Derbyn Gofal a deddfwriaeth newydd gan

Lywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â darparwyr yn y sector preifat a bregusrwydd y farchnad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. DATGANIAD O GYFRIFON HEB EU HARCHWILIO 2022/23 (PC/WA151) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI Datganiad o Gyfrifon Cyngor Bro Morgannwg heb ei archwilio ar gyfer 2022/23 a chyfeirio sylwadau'r Pwyllgor at y Pennaeth Cyllid fel Swyddog Adran 151 i'w trafod wedi hynny gydag archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru.

(2) NODI Datganiad o Gyfrifon y Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir heb ei archwilio ar gyfer 2022/23 a Datganiad Llywodraethu'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir heb ei archwilio.

(3) BOD Datganiad o Gyfrifon Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd heb ei archwilio ar gyfer 2022/23 yn cael ei nodi.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Caniatáu ar gyfer adolygiad cychwynnol o Gyfrifon Datganiad Cyngor Bro Morgannwg nas archwiliwyd gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

(2&3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2022/23 (PC/WA151) –

PENDERFYNWYD – Y DYLID cytuno mewn egwyddor ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022/2023 yn amodol ar ddiwygio'r ddogfen yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd am ei hymgorffori er mwyn iddi gael ei hargymell i'w mabwysiadu gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. DIWEDDARIAD AR BROSIECT CYFALAF YSGOL STANWELL (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – NODI'r diweddariad a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD TWYLL CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2022/23 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – NODI cynnwys yr adroddiad, y mesurau sydd mewn lle a'r gwaith sy'n cael ei wneud i atal a chanfod twyll a chamgymeriadau.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol yn amodol ar gynnwys adroddiad diweddaru ynghylch Ysgol Stanwell ar gyfer y cyfarfod nesaf, 18 Medi, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.